Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5375A2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Perthnasedd | 6 |
| Canfyddiadau’r Archwiliad | 7 |
| Y tîm archwilio a chydymffurfiaeth foesegol | 11 |
| Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio | 13 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed | 20 |
| Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 24 |
| Atodiad 4 – Llythyr sylwadau | 33 |
| Atodiad 5 – Argymhellion | 37 |
| Ansawdd yr archwiliad | 41 |
| Eich cefnogi chi | 42 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o’r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwyf yn falch o rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon ar gyfer 2025–26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Interim.

Mae fy nhîm wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth fel y nodir yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Chwefror 2026, gyda'r adolygiad o'r fersiwn derfynol o'r cyfrifon, ynghyd â'r gwaith cwblhau ein gweithdrefnau ar gyfer cau'r archwiliad.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru'r perthnasedd er mwyn adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi nodi unrhyw risgiau archwilio newydd. Nodir fy ymateb i risgiau a nodwyd yn flaenorol yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol imi roi barn ar ba un a yw'r cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol, ac yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd ar berthnasedd a pha un a yw'r incwm a'r gwariant wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd. Amlinellir fy marn archwilio arfaethedig a'm sail ar ei chyfer ar dudalen 24.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, hynny yw y Bwrdd/Pwyllgor Archwilio, yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe am eu cydweithrediad drwy gydol y broses archwilio a fu'n amhrisiadwy wrth gwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ond **barn amodol ar reoleidd-dra** ar y cyfrifon. Rydym hefyd yn cynnig cyhoeddi **adroddiad o sylwedd**.

Gweler **Atodiad 3**

Mae **un mater arwyddocaol** ac **un mater arall** i'w hadrodd.

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon.

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Rydym wedi codi **tri argymhelliad** o ganlyniad i'n gwaith.

Gweler **Atodiad 5**

Ein nod yw ardystio eich cyfrifon ar **26 Mehefin 2026**, sydd cyn y dyddiad cau, sef **30 Mehefin 2026**.

# Perthnasedd

Rwyf yn defnyddio barn broffesiynol i bennu trothwy perthnasedd er mwyn nodi a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn unol â'r fframwaith cyfrifyddu a'r deddfau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru'r perthnasedd drwy gydol yr archwiliad ac rwyf yn cynnwys yn yr adroddiad hwn faterion sy'n uwch na fy nhrothwy adrodd, fel y nodir isod:

**Perthnasedd**

1% o wariant gros yw hyn yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26

**£18.15 miliwn**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

Lefel perthnasedd o 5% yw hyn

**£0.907 miliwn**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol**

£5,000/bandio cywir

**Datgeliadau partïon cysylltiedig**

£10,000 (Unigolion)

£18.15 miliwn (Cyrff Eraill)

# Canfyddiadau'r Archwiliad

## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi pan nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifyddu.

Roedd rhai camddatganiadau a nodwyd yn y cyfrifon.

### Camddatganiadau heb eu cywiro

Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y cyfrifon sy'n parhau heb eu cywiro.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi camddatganiadau sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw chi yn ein tyb ni.

Nodir y rhain yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol eraill

Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni eich hysbysu ynghylch canfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch trosolwg o broses adrodd ariannol y Bwrdd Iechyd.

Nodwyd y materion arwyddocaol canlynol yn ystod yr archwiliad.

### Mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu mewn cysylltiad â phenodi Cyfarwyddwyr Gweithredol

Nododd fy adolygiad o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol feysydd lle gellid cryfhau'r trefniadau llywodraethu mewn cysylltiad â phenodi Cyfarwyddwyr Gweithredol Interim.

Canfu ein profion fod un Cyfarwyddwr Gweithredol Interim ac un Cyfarwyddwr Gweithredol parhaol wedi eu penodi yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, roedd y cyflog wedi'i fandio'n gywir ac roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau

Gwasanaeth wedi cymeradwyo’r penodiadau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod penderfyniad/cymeradwyaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth wedi ei chadarnhau gan y Bwrdd yn unol â Rheolau Sefydlog. Gwnaethom adrodd am fater tebyg yn 2024-25.

Hefyd, canfu ein profion fod dau benodiad Cyfarwyddwr Gweithredol Interim a estynnwyd y tu hwnt i dymor cychwynnol y contract ac er bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo’r estyniadau, nid oedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth na’r Bwrdd wedi adrodd am yr estyniadau hyn nac wedi’u cymeradwyo. Mae Rheolau Sefydlog yn dawel ynghylch a yw hyn yn angenrheidiol. O ystyried bod estyn contract interim yn gyfystyr ag ailbenodi’r person hwnnw am gyfnod o amser ychwanegol yn y bôn, er llywodraethu da, rydym yn argymell bod unrhyw estyniadau i gontractau interim ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a’u cadarnhau gan y Bwrdd.

Gweler **Argymhelliad 1** yn **Atodiad 5**.

## Materion eraill

Mae dau fater arall yr hoffem eu dwyn i’ch sylw.

### Archwiliad o Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae ymgysylltiad swyddog y Bwrdd Iechyd ag archwilwyr drwy gydol y broses archwilio wedi bod yn ddefnyddiol ac yn adeiladol, gan ganiatáu i ni ddatrys unrhyw ymholiadau archwilio yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn benodol, mae’r papurau gwaith a ddarparwyd gan y tîm cyllid canolog a’r ymgysylltu â’r tîm wedi bod yn ardderchog. Gwerthfawrogir hyn yn fawr ac mae’n caniatáu proses archwilio effeithlon.

Fodd bynnag, gwnaethom brofi materion yn ystod ein harchwiliad Eiddo, Peiriannau ac Offer a arweiniodd at aneffeithlonrwydd yn y broses o archwilio’r maes hwn. Golyga hyn fod archwiliad y maes hwn wedi cymryd mwy o amser nag a ddylasai. Gallai hyn beri i ni godi ffioedd archwilio ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod a/neu beri i ni fethu â chyflawni terfynau amser oni bai y cyflawnir hyn (yn enwedig yn y bumed flwyddyn sef y flwyddyn brisio). Yn dilyn uwchgyfeirio hyn at y Cyfarwyddwr Cyllid fe ymdriniwyd â’r oediadau.

Gwnaethom adrodd am faterion tebyg yn 2022-23 ac er gwaethaf mân welliannau yn 2023-24 ac yn 2024-25, mae'r materion hyn wedi ailymddangos. Crynhoir y materion hyn fel a ganlyn:

- **Tystiolaeth ategol/papurau gwaith** – yn ystod yr archwiliad, gwnaethom brofi anawsterau o ran ansawdd a/neu wrth gael gafael ar y papurau gwaith/tystiolaeth ategol ar gyfer rhai elfennau o Eiddo, Peiriannau ac Offer yr oeddem yn eu profi. Dylai papurau gwaith o ansawdd da fod ar gael ar ddechrau'r archwiliad.
- **Ymgysylltu â'r broses archwilio** – gwnaethom brofi oediadau wrth gael ymatebion i rai o'n hymholiadau ac wrth gael tystiolaeth ategol ar gyfer y samplau a ddewiswyd gennym i'w profi (oediadau sylweddol weithiau). Golygai hyn fod y gwaith archwilio wedi cymryd mwy o amser i'w gwblhau.

Gweler **Argymhelliad 2** yn **Atodiad 5**. Byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad â swyddogion i wella'r maes hwn ar gyfer 2026-27 ac archwiliadau yn y dyfodol.

## Cyflogau Cyfalafol

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys £959,000 mewn Cyflogau Cyfalafol a gynhwysir yn y balans Ychwanegiadau yn Nodyn 11.1 Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae hyn yn ymwneud â chostau staff sy'n gweithio ar Brosiectau Cyfalaf. O dan safonau cyfrifyddu, dim ond costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gynlluniau cyfalafol y gellir eu cyfalafu.

Mae'r costau a godir yn seiliedig ar yr aelod o staff, natur ei swyddogaeth a faint o amser y bydd ei angen arno ar y prosiect(au). O'r herwydd, codir canrannau costau staff gwahanol.

Nododd ein profion fod y canrannau hyn yn cael eu pennu drwy drafodaethau ar ddechrau'r flwyddyn ac nad oes unrhyw lwybr archwilio ategol i ddangos y trafodaethau hyn, y canrannau y cytunwyd arnynt na'r sail resymegol dros y canrannau penodol y cytunwyd arnynt.

Er bod y risg o wall perthnasol yn isel, dylid cryfhau'r llwybr archwilio i sicrhau bod sail resymegol glir a chymeradwyaeth o ran canrannau ar gyfer cyflogau cyfalafol ar ddechrau pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn).

Gweler **Argymhelliad 3** yn **Atodiad 5**.

# Barn archwilio arfaethedig

## Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn wir a theg ddiamod ond barn archwilio amodol ar reoleidd-dra ar gyfrifon eleni ar ôl i chi ddarparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae’r farn ar reoleidd-dra yn amodol oherwydd na fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyraniad adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2025-26.

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad o sylwedd yn unol â blynyddoedd blaenorol oherwydd na fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol cyntaf na’i ail ddyletswyddau ariannol i weithredu o fewn dyraniad ei adnoddau refeniw dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 2025-26 nac i feddu ar gynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy.

Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 3**.

## Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau sy’n eich galluogi i gadarnhau wrthym fod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae rhywfaint o’r wybodaeth hon sy’n ofynnol gan safonau archwilio; gallai gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â’ch archwiliad.

Cynhwysir y llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi yn **Atodiad 4**.

# Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i gryfhau’r trefniadau. Nodir y rhain yn **Atodiad 5** ynghyd ag ymatebion y rheolwyr i’r argymhellion.

Byddwn yn monitro’r cynnydd o’i gymharu â’r argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

# Y tîm archwilio a chydymffurfiaeth foesegol

Caiff prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: Fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Kate Havard<br>kate.havard@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Jason Blewitt<br>jason.blewitt@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | Leanne Malough<br>leanne.malough@archwilio.cymru |

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Gallwn gadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth gynnal ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi ei beryglu;
- nad oes gennym unrhyw berthynas a allai danseilio ein hannibyniaeth na'n gwrthrychedd.

## Secondiadau staff

Fel y datgelir yn ein Cynllun Archwilio, mae un aelod o staff a gyflogir gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei secondio i'r Bwrdd Iechyd. Cyfrifydd dan hyfforddiant yw'r aelod o staff sydd wedi ei secondio yn rhan o fenter a

ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru gyda’r nod o ganiatáu i gyfrifwyr dan hyfforddiant ehangu eu sgiliau ac ennill profiad o weithio ar draws gwahanol rannau o’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd yr aelod staff ei secondio i’r Bwrdd Iechyd am y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024.

Er mwyn diogelu rhag unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd, mae’r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol yn unol â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol:

- nid yw’r secondai wedi ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau rheoli;
- roedd y secondiad am 12 mis ar y mwyaf.

# Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru’r risgiau a gynhwysir yn fy Nghynllun Archwilio ac mae’n nodi sut yr aed i’r afael â nhw yn rhan o’r archwiliad.

Noda fy Nghynllun Archwilio risgiau o gamddatganiad a/neu afreoleidd-dra perthnasol ar gyfer archwiliad o gyfrifon y Bwrdd Iechyd. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru’r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aed i’r afael â nhw yn rhan o’r archwiliad. Nid oes unrhyw risgiau archwilio ychwanegol a nodwyd ers hynny y mae angen eu dwyn i’ch sylw.

**Arddangosyn 2: Risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, y gwaith a wnaed a’r canlyniad**

| Risg archwilio | Y gwaith a wnaed | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Y risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau**<br>Mae’r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau’n bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai diystyru o’r fath ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 240.32-33]. | Gwnaeth y tîm archwilio:<br>• brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd;<br>• gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw achosion o reolwyr yn diystyru rheolaethau. |

**Methu dyletswyddau ariannol**

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol – a elwir y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol.

Mae risg sylweddol y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol cyntaf o fantoli'r cyfrifon yn ystod cyfnod o dair blynedd.

Mae'r sefyllfa refeniw ym mis 10 yn dangos diffyg y flwyddyn hyd yma o £57.3 miliwn ac yn rhagweld diffyg o £58.7 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2023-24 a 2024-25, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £118 miliwn.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fantoli'r cyfrifon o'u cymharu â'i Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros gyfnod o dair blynedd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni hyn yn ystod y blynyddoedd blaenorol, mae'r perfformiad o'i gymharu â'r ddyletswydd wedi bod yn dynn.

Gwnaeth fy nhîm archwilio fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 a'r sefyllfa gronnol ar gyfer tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2026 ac ystyried yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r dyletswyddau ariannol.

Gwnaethom ganolbwyntio ein profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd wrth lunio adroddiadau.

Gwnaethom adolygu'r trafodiadau ar ddiwedd y flwyddyn, yn benodol croniadau a thorbwyntiau. Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd.

Gwnaethom roi barn amodol ar reoleidd-dra a rhoddwyd adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd a'r amgylchiadau lle cododd hynny a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

Mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon y rheolwyr fod â thuedd mewn ymdrech i fodloni’r ddyletswydd ariannol o ran cyfalaf, refeniw neu’r ddau.

Pan fyddwch yn methu’r ddyletswydd ariannol hon o ran cyfalaf neu refeniw, byddwn yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy’n tynnu sylw at y methiant ac yn rhoi barn amodol ar eich rheoleidd-dra.

Mae’r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd dreigl sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Pe byddech yn methu â chyflawni’r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn cyflwyno adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy’n tynnu sylw at hyn.

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol**<br>Bu sawl penodiad parhaol ac interim newydd i swyddi uwch-swyddog ac aelod o’r bwrdd yn ystod 2025-26 y mae angen eu cofnodi yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.<br>Ceir risg nad ydynt yn cael eu datgelu’n briodol yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol, gan fod cydnabyddiaeth ariannol i uwch-swyddogion ac aelodau o’r bwrdd yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur. Rydym wedi nodi materion gyda’r datgeliadau hyn yn flaenorol hefyd.<br>Felly, ceir risg y gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol. | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• adolygu’r symudiadau yn yr uwch-dîm rheoli yn ystod 2025-26;<br>• sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;<br>• sicrhau bod y symiau a dalwyd yn gyson â’r hyn a gymeradwywyd gan y Bwrdd ac yn unol â chyfraddau cyflog Llywodraeth Cymru;<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi’u paratoi yn unol â’r gofynion. | Gwnaethom adolygu datgeliadau yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ni nodwyd unrhyw wallau perthnasol ynghylch y datgeliadau.<br>Gwnaethom nodi rhai materion llywodraethu ynghylch penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol (gweler adran ‘Mater Arwyddocaol Arall’ ac **Argymhelliad 1** yn **Atodiad 5**). |

**Prisio asedau eiddo**

Mae gwerth asedau eiddo a adlewyrchir yn y fantolen a nodiadau ar y cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.

Mae’n ofynnol bod asedau eiddo’n cael eu dal ar sail prisiad sy’n ddibynnol ar natur a defnydd yr asedau. Mae llawer iawn o oddrychedd yn perthyn i’r amcangyfrif hwn gan ddibynnu ar y tybiaethau gan arbenigwyr a rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.

Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio'n ffurfiol bob pum mlynedd o leiaf, gyda mynegeio yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd interim, ond gallai gwerthoedd newid o un flwyddyn i’r llall hefyd, yn enwedig pan fo prosiectau adnewyddu parhaus sy'n arwain at wariant dilynol yn cael ei gyfalafu.

Mae risg y gallai gwerth cario asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn berthnasol wahanol i werth cyfredol yr asedau ar 31 Mawrth 2026.

Gwnaeth fy nhîm archwilio:

- adolygu’r mynegeion a ddefnyddiwyd gan reolwyr ar gyfer rhesymoldeb;
- gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol a ddarparodd fynegeion i reolwyr ac a ymgymerodd â phrisiadau yn ôl yr angen;
- profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a’r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi eu hadlewyrchu’n gywir yn y datganiadau ariannol;
- cadarnhau bod mynegeio wedi ei gymhwyso’n briodol a’i fod wedi ei adlewyrchu’n gywir yn y datganiadau ariannol;
- profi’r cysoniad rhwng y cyfriflyfr ariannol a’r gofrestr asedau.

Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw faterion/gwallau perthnasol. Bu oediadau wrth ddarparu papurau gwaith, tystiolaeth ategol ac ymatebion i ymholiadau yn ogystal â diffyg llwybr archwilio mewn cysylltiad â Chyflogau Cyfalafol fel yr adroddir yn adran ‘Materion Eraill’ yr adroddiad hwn ac **Argymhellion 2 a 3** yn **Atodiad 5**.

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau partïon cysylltiedig**<br>Rhaid i’r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â’r trafodiadau a’r balansau rhwng y Bwrdd Iechyd a’r corff/parti arall.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd lawer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.<br>Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae’n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae’r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac fe’u hystyrir yn berthnasol o ran eu natur.<br>Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo gwerth y rhain yn gymharol isel. | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• adolygu proses y rheolwyr ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;<br>• ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig;<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â’r gofynion. | Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw faterion/gwallau perthnasol. Diwygiwyd nodyn y Parti Cysylltiedig i sicrhau ei fod yn cytuno i gefnogi papurau gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| **Darpariaethau**<br>Mae’r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol, yn enwedig mewn cysylltiad ag esgeulustod clinigol.<br>Mae gradd sylweddol o oddrychedd ac ansicrwydd wrth fesur a phrisio’r darpariaethau hyn.<br>Mae trosglwyddiad hefyd i system gyfreithiol a risg newydd ar gyfer cofnodi hawliadau o 2025-26.<br>Mae’r goddrychedd a’r ansicrwydd hwn yn cynyddu’r risg o gamddatganiad perthnasol. | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• adolygu proses y rheolwyr ar gyfer amcangyfrif gwerth y darpariaethau;<br>• ystyried cymhwysedd, gallu a gwrthrychedd yr arbenigwyr rheoli sy’n paratoi’r amcangyfrifon;<br>• adolygu’r broses o drosglwyddo data i’r system gyfreithiol a risg newydd;<br>• sicrhau bod datgeliadau yn unol â’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru. | Diwygiwyd y nodyn Darpariaethau i symud £140 miliwn o ddarpariaethau o gyfredol i ddarpariaethau anghyfredol (dim effaith gyffredinol ar gyfanswm gwerth y darpariaethau) – gweler **Atodiad 2** |

# Atodiad 2 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau a ganlyn sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond y credwn y dylem eu dwyn i'ch sylw.

| Gwerth y cywiriad | Maes cyfrifon | Esboniad |
|---|---|---|
| £1,504,000<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 3.2 Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill**<br>Diwygiwyd Nodyn 3.2 er mwyn ailddosbarthu £1,504,000 o 'Nwyddau a Gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd eraill GIG Cymru' i 'Nwyddau a Gwasanaethau gan Bwyllgor Cydgomisiynu GIG Cymru'.<br>Nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| £6,302.000<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 8 Taliadau yn y Dyfodol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr**<br>Diweddarwyd Nodyn 8, er mwyn dileu £6,302.000 o gyfanswm yr isafswm prydles sy'n daladwy yn y dyfodol a gynhwyswyd yn anghywir (oherwydd mai'r tenant yw'r Bwrdd Iechyd ac nid y landlord)<br>Gan mai nodyn datgelu yw hwn, nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| Amrywiol<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 9.1 Costau Cyflogeion**<br>Nododd profion Nodyn 9.1 y canlynol:<br>• Hyfforddai Arbenigol Lwpws Erythematosws Systemig (SLE) – Mae costau nawdd cymdeithasol o £5,707,000 wedi eu datgan £745,000 yn rhy uchel a dylid eu datgelu fel £4,962,000<br>• Hyfforddai Arbenigol Lwpws Erythematosws Systemig (SLE) – Mae cyfraniadau y cyflogwr at gostau Cynllun Pensiwn y GIG o £5,514,000 wedi eu datgan £193,000 yn rhy isel a dylid eu datgelu fel £5,707,000.<br>Diweddarwyd Nodyn 9.1 i adlewyrchu’r diwygiadau hyn. Nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| £1,150,000<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 18 Masnach a Symiau Taladwy Eraill a Nodyn 20 Darpariaethau**<br>Diwygiwyd Nodyn 18 a Nodyn 20 i ailddosbarthu £1,150,000 o ‘Masnach a Symiau Taladwy Eraill i ‘Darpariaethau’ er mwyn sicrhau bod y swm wedi ei ddosbarthu’n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu.<br>Nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| £140,862.000<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 20 Darpariaethau**<br>Diwygiwyd Nodyn 20 i ail-ddosbarthu £140,862.000 o Ddarpariaethau Cyfredol i Ddarpariaethau Anghyfredol yn sgil gwybodaeth wedi’i diwygio a ddarparwyd gan y tîm Cyfreithiol a Risg. Nid oedd effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol |
| Amrywiol<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 30 Partïon Cysylltiedig**<br>Diwygiwyd Nodyn 30 i sicrhau bod datgeliadau yn cydweddu â phapurau gwaith ategol a datganiadau o fuddiannau.<br>Gan mai nodyn datgelu yw hwn, nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| Amrywiol<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Nodyn 32 Cyllidebau Cyfun**<br>Diwygiwyd Nodyn 32 i gynnwys Cyllideb Gyfun ychwanegol a oedd wedi ei hepgor o’r datganiadau ariannol drafft. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |
| Amrywiol<br>(Nid oes effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol) | **Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol**<br>Canfu profion archwilio fod y Cyfarwyddwr Gweithlu Interim wedi ei hepgor mewn camgymeriad. Diweddarwyd yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gynnwys y datgeliadau perthnasol. | Sicrhau cywirdeb yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwnaed nifer o fân ddiwygiadau eraill i’r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â chywiriadau i ddatgeliadau gwybodaeth neu newidiadau naratif.<br>Nid oedd unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau ariannol. | |
| Amrywiol<br>(Dim effaith gyffredinol ar y prif ddatganiadau) | Gwnaed nifer o fân ddiwygiadau eraill i’r datganiadau ariannol, yn ymwneud â chywiriadau i ddatgeliadau gwybodaeth, newidiadau naratif, neu wallau teipio. | Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol. |

# Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

## Adroddiad archwilio arfaethedig

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y Senedd

### Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae’r rhain yn cynnwys y Datganiad Cynhwysfawr o’r Gwariant Net, y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a’r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw’r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y’u dehonglwyd ac a’u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2026 ac o’i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi’n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y’u dehonglwyd ac a’u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF;
- wedi eu paratoi’n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio’r materion a ddisgrifir yn adran Sail ar gyfer Barn Amodol ar Reoleidd-dra fy adroddiad, ym mhob agwedd berthnasol, mae’r gwariant a’r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae’r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw.

## Sail ar gyfer Barn Amodol ar reoleidd-dra

Rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i’w derfyn adnoddau drwy wario £112.428 miliwn dros y £4,055 miliwn yr awdurdodwyd iddo ei wario yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2023-24 a 2025-26. Mae’r gwariant hwn yn gyfystyr â gwariant afreolaidd.
Nodir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad sydd ynghlwm.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau yr archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.
Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o’r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn.
Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i’m barnau.

## Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy’n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r corff i barhau i

fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o’r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y cyfarwyddwyr mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o’r dystysgrif hon.

Mabwysiedir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy’n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol pan fyddant yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i’r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad archwilydd arnynt. Y Prif Weithredwr sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o’r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae’n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae’r rhan o’r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol sydd i’w harchwilio wedi ei pharatoi’n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n ddarostyngedig i archwiliad wedi eu paratoi’n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth

Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yno gan Weinidogion Cymru

- mae’r wybodaeth a roddir yn y Rhagair, yr Adroddiad Atebolrwydd a’r Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth ynghylch y Bwrdd a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Rhagair, yr Adroddiad Atebolrwydd na’r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nid yw’r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru am gydnabyddiaeth ariannol na thrafodiadau eraill;
- ni wneir datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol penodol a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o’r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i’w archwilio yn cytuno â’r cofnodion cyfrifyddu a’r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr mewn cysylltiad â’r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau’r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr, mae’r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;

- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu'r Bwrdd i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau yr Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob tro yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwiliad mewnol yr endid archwiliedig, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod gwariant, cofnodi dyddlyfrau anarferol a thuedd mewn amcangyfrifon cyfrifyddu;
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe;
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon

cyfrifyddu’n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy’n anarferol neu nad oes a wnelont â busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau’n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae’r disgrifiad hwn yn rhan o’m hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a’r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw.

Rwyf yn cyfathrebu â’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalen 31.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

26 Mehefin 2026

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, rwyf yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd Lleol).

Rwyf yn adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 er mwyn tynnu sylw at faterion allweddol ar gyfer fy archwiliad, fel a ganlyn:

- methiant o'i gymharu â'r ddyletswydd ariannol gyntaf a fy marn amodol ganlyniadol ar 'reoleidd-dra';
- methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r ail ddyletswydd ariannol.

Nid wyf wedi rhoi amod ar fy marn 'gwir a theg' mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r materion hyn.

## Dyletswyddau ariannol

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol – a elwir y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol.

Ar gyfer 2025-26, methodd y Bwrdd Iechyd Lleol â bodloni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol.

## Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod o dair blynedd a fesurir o dan y ddyletswydd hon eleni yw 2023-24 i 2025-26.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 y Datganiadau Ariannol, ni reolodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd £112.428 miliwn y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnol o £4,055 miliwn.

Os nad yw Bwrdd Iechyd Lleol yn mantoli ei lyfrau dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnoddau (hynny yw, terfyn gwariant) ar gyfer y tair blynedd hynny y tu hwnt i awdurdod y Bwrdd Iechyd Lleol i'w wario ac felly mae'n 'afreolaidd'. Mewn amgylchiadau o'r

fath, mae'n ofynnol imi roi amod ar fy 'marn ar reoleidd-dra' beth bynnag fo gwerth y gwariant gormodol.

## Methiant yr ail ddyletswydd ariannol

Mae'r **ail ddyletswydd ariannol** yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd dreigl sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Bernir bod Bwrdd Iechyd Lleol wedi bodloni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2025-26 os yw wedi cyflwyno cynllun 2025-26 i 2027-28 sydd wedi ei gymeradwyo gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru, yr oedd yn ofynnol iddynt adolygu ac ystyried cymeradwyo'r cynllun.

Fel y dangosir yn Nodyn 2.3 y Datganiadau Ariannol, ni fodlonodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei ail ddyletswydd ariannol i roi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer cyfnod 2025-26 i 2027-28.

**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**26 Mehefin 2026**

# Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

## Llythyr sylwadau terfynol

[Pennawd llythyr corff archwiliedig]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

25 Mehefin 2026

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n ddarostyngedig i archwiliad) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 er mwyn mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, pa un a oeddent wedi eu paratoi'n briodol a rheoleidd-dra incwm a gwariant. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau y credwn sy'n ddigonol, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau gan reolwyr

### Cyfrifoldebau

Yn rhinwedd fy swydd yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Atebol rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am:

- baratoi’r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi’r datganiadau ariannol, mae’n ofynnol imi:
  - gadw at y cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru/Trysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifo priodol yn gyson;
  - gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
  - nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi eu dilyn a’u datgelu, ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt;
  - eu paratoi ar sail busnes gweithredol gan ragdybio y bydd gwasanaethau y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu;
- sicrhau rheoleidd-dra unrhyw wariant a thrafodiadau eraill a gyflawnir;
- dylunio, gweithredu, a chynnal a chadw rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu’r canlynol ichi:

- mynediad llawn at y canlynol:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy’n berthnasol i’r broses o baratoi’r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn i ni amdani at ddibenion yr archwiliad;
  - mynediad digyfyngiad at staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad o’r risg y gallai’r datganiadau ariannol fod wedi’u eu camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni’n ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar y Bwrdd Iechyd ac sy’n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol;

  - eraill lle gallai’r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy’n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw’r holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodiadau partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;
- ein gwybodaeth am holl achosion posibl a gwirioneddol o drafodiadau afreolaidd.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae’r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi’u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe’u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.
Mae’r dulliau, y data, a’r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a’u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy’n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.
Rhoddwyd cyfrif yn briodol am berthnasoedd a thrafodiadau partïon cysylltiedig, ac maent wedi cael eu datgelu’n briodol.
Mae’r holl ddigwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi eu haddasu neu eu datgelu.
Mae’r holl ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd, a rhoddwyd cyfrif amdanynt, ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.
Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed uchod gan y rheolwyr wedi cael eu trafod gyda ni.
Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cadw cofnodion cyfrifyddu digonol.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Iechyd ar 25 Mehefin 2026.
Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi’i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol | Cadeirydd y Bwrdd |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

# Atodiad 5 – Argymhellion

Nodwn argymhellion isod o’n harchwiliad ynghyd ag ymateb eich rheolwyr iddynt.

**1. Trefniadau llywodraethiant ar gyfer penodiadau Cyfarwyddwr Gweithredol**

Canfu ein profion fod un Cyfarwyddwr Gweithredol Interim wedi i benodi yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ac roedd y cyflog wedi’i fandio’n gywir ac roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth wedi cymeradwyo’r penodiad interim. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod penderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth wedi’i gadarnhau gan y Bwrdd yn unol â Rheolau Sefydlog. Gwnaethom adrodd mater tebyg yn 2024-25.

Hefyd, canfu ein profion fod un penodiad Cyfarwyddwr Gweithredol Interim wedi’i estyn y tu hwnt i dymor cychwynnol y contract ac er bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo’r estyniad, nid oedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth na’r Bwrdd wedi adrodd am yr estyniad hwn nac wedi ei gymeradwyo. Mae Rheolau Sefydlog yn dawel ynghylch a yw hyn yn ofynnol. O ystyried bod estyn contract interim yn gyfystyr ag ailbenodi’r person hwnnw am gyfnod o amser ychwanegol yn y bôn, er mwyn llywodraethiant da, rydym yn argymell bod unrhyw estyniadau i gontractau interim ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth ac yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd.

Felly, rydym yn argymell:

(i) bod y Bwrdd yn cadarnhau pob penodiad Cyfarwyddwr Gweithredol Interim yn unol â Rheolau Sefydlog;
(ii) bod estyniadau i gontractau interim ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth ac yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd.

**Blaenoriaeth:**

Uchel

### Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr:

Do

### Ymateb y rheolwyr:

Byddwn yn gofyn yn ffurfiol i’r Bwrdd gadarnhau’r holl benderfyniadau a bydd hyn yn weithredol o gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf ar 30 Gorffennaf. Byddwn hefyd yn adrodd rhestr o’r holl swyddi Interim a chofnod o pryd maent wedi’u hymestyn, cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a Llywodraeth Cymru a dyddiadau, ac yn adrodd y rhain i’r Bwrdd hefyd. Bydd hyn yn digwydd unwaith eto o gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

### Dyddiad gweithredu:

31 Gorffennaf 2026

## 2. Archwilio Eiddo, Peiriannau ac Offer

Gwnaethom brofi materion yn ystod ein harchwiliad Eiddo, Peiriannau ac Offer a arweiniodd at aneffeithlonrwydd yn y broses o archwilio’r maes hwn. Golyga hyn fod archwiliad y maes hwn wedi cymryd mwy o amser nag a ddylasai. Gallai hyn beri i ni godi ffioedd archwilio ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod a/neu beri i ni fethu â chyflawni terfynau amser oni bai y cyflawnir hyn (yn enwedig yn y bumed flwyddyn sef y flwyddyn brisio). Yn sgil uwchgyfeirio hyn at y Cyfarwyddwr Cyllid fe ymdriniwyd â’r oediadau.

Gwnaethom adrodd materion tebyg yn 2022-23 ac er gwaethaf mân welliannau yn 2023-24 ac yn 2024-25, mae’r materion hyn wedi ailymddangos. Crynhoir y materion hyn fel a ganlyn:

- **Tystiolaeth ategol/papurau gwaith** – yn ystod yr archwiliad, gwnaethom brofi anawsterau o ran ansawdd a/neu wrth gael gafael ar y papurau gwaith/tystiolaeth ategol ar gyfer rhai elfennau o Eiddo, Peiriannau ac Offer yr oeddem yn eu profi. Dylai papurau gwaith o ansawdd da fod ar gael ar ddechrau’r archwiliad.
- **Ymgysylltu â’r broses archwilio** – gwnaethom brofi oediadau wrth gael ymatebion i rai o’n hymholiadau ac wrth gael tystiolaeth ategol ar gyfer y samplau a ddewiswyd gennym i’w profi (oediadau

arwyddocaol weithiau). Golygai hyn fod y gwaith archwilio wedi cymryd mwy o amser i'w gwblhau.

Rydym yn argymell bod yr holl bapurau gwaith Cyfalaf yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol drafft a bod tystiolaeth ategol ac ymatebion i ymholiadau yn cael eu darparu mewn modd prydlon.

**Blaenoriaeth:**

Uchel

**Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr:**

Do

**Ymateb y rheolwyr:**

Ymatebwyd i'r mwyafrif o'r 92 o gwestiynau archwilio a godwyd o fewn tri diwrnod gwaith (85%). Derbynnir ei bod wedi cymryd mwy o amser i ymateb i rai yn ystod cyfnodau prysur iawn o weithrediadau arferol ac ymrwymiadau absenoldeb ar gyfer y Tîm Cyllid Cyfalaf. Cafwyd un cais hefyd a ddaeth drwy e-bost ar 8 Ebrill a gollwyd gan y Tîm Cyllid Cyfalaf gan eu bod yn canolbwyntio ar fodloni'r dyddiad terfyn anariannol a chynhyrchu'r datganiadau ariannol drafft.

Y papurau gwaith a ddarparwyd ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol drafft oedd yr un gyfres o bapurau a ddarparwyd yn 2024-25. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn gweithio ar y cyd â thîm Archwilio Cymru i wella'r maes hwn ar gyfer 2026-27 drwy adolygu sylwadau archwilio lle byddai'r papurau gwaith hynny yn elwa ar gael eu gwella a hefyd lle y gofynnwyd am bapurau gwaith ychwanegol yn ystod y broses o archwilio'r datganiadau ariannol drafft, bydd y rhain yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol drafft.

**Dyddiad gweithredu:**

30 Medi 2026

### 3. Cyflogau Cyfalafol

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys £959,000 mewn Cyflogau Cyfalafol a gynhwysir yn y balans Ychwanegiadau yn Nodyn 11.1 Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae hyn yn ymwneud â chostau staff sy'n gweithio ar

Brosiectau Cyfalaf. O dan safonau cyfrifyddu, dim ond costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gynlluniau cyfalafol y gellir eu cyfalafu.

Mae'r costau a godir yn seiliedig ar yr aelod o staff, natur ei swyddogaeth a faint o amser y bydd ei angen arno ar y prosiect(au). O'r herwydd, codir canrannau costau staff gwahanol.

Nododd ein profion fod y canrannau hyn yn cael eu pennu drwy drafodaethau ar ddechrau'r flwyddyn ac nad oes unrhyw lwybr archwilio ategol i ddangos y trafodaethau hyn, y canrannau y cytunwyd arnynt na'r sail resymegol dros y canrannau penodol y cytunwyd arnynt.

Rydym yn argymell bod y llwybr archwilio yn cael ei gryfhau i sicrhau bod sail resymegol glir dros y canrannau ar gyfer cyflogau cyfalafol a'u bod yn cael eu cymeradwyo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol

(a phan fo unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn).

**Blaenoriaeth:**

Uchel

**Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr:**

Do

**Ymateb y rheolwyr:**

Nid oedd y broses o ddyrannu i gynllun cyfalaf yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. Caiff y canrannau a gymeradwyir ar ddechrau'r flwyddyn eu cofnodi'n ffurfiol a'u cynnwys fel rhan o'r papurau gwaith a ddarperir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol drafft.

**Dyddiad gweithredu:**

31 Gorffennaf 2026

# Ansawdd yr archwiliad

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn un llwyr. Rydym ni’n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau’n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio’r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i’n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein hadroddiad ansawdd archwilio diweddaraf.

**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i gefnogi'r broses o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

**Ewch at ein gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da, gan gynnwys rhannu arferion a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.